

**Adolygiad o'r berthynas rhwng yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a
Diogelwch a'r Awdurdodau Lleol.**

Ar hyn o bryd rhennir gwaith gorfodi lechyd a Diogelwch rhwng yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch a thros 400 o awdurdodau lleol. Mae'n glod i'r bartneriaeth hon fod enw da Prydain o ran iechyd a diogelwch gyda'r gorau yn y byd. Gellir gwneud mwy. Un ffordd o wneud hyn yw gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau. Mae'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch yn adolygu ei berthynas gyda'r Awdurdodau Lleol oherwydd rydym am sicrhau y cyflawnir y canlyniadau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd gennym ein dau.

Mae perfformiad iechyd a diogelwch yn effeithio ar gymdeithas gyfan, drwy anafiadau personol ac afiechyd a hefyd hyfywedd economaidd a chymunedol. Mae Prydain ar hyn o bryd yn colli tua 25 miliwn o ddiwrnodau gwaith mewn cyfnodau salwch, tra bod damweiniau yn y gweithle yn costio tua £18 biliwn mewn difrod i eiddo a tharfu ar fusnes. Mae damweiniau, cyfnodau salwch ac afiechyd yn peri tristwch i unigolion a theuluoedd, ac maent hefyd yn gosod pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth iechyd a'r system budd-daliadau.

Partneriaeth?

Mae'r berthynas rhwng HSC ac awdurdodau lleol, yn sylfaenol, yn un gyfreithiol. Caniatâ Adran 18 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ayb 1974 i'r Ysgrifennydd Gwladol Iunio rheoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i orfodi rhannau o'r Ddeddf. Amlinellir disgrifiad mwy manwl o'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol yn Atodiad 3.

Mae'r berthynas gyfredol rhwng awdurdodau lleol a HSE mewn enw yn un o bartneriaeth ond eto mae'r awdurdodau lleol a HSE yn awyddus bod gwelliannau yn digwydd mewn iechyd a diogelwch galwedigaethol a golyga hyn wneud yn sicr bod gennym berthynas waith effeithiol – eto ar hyn o bryd nid ydym yn mesur pa mor effeithiol yw ein partneriaeth.

Nododd y beirniaid anawsterau mewn cyfathrebu, cysondeb a chynnal adnoddau digonol mewn rhai rhannau o'r system bresennol. Dadl rhai, yng ngoleuni hyn, yw y byddai'n well pe bai un awdurdod gorfodi yn unig ar gyfer iechyd a diogelwch, a fyddai wedyn yn sicrhau symlrwydd a chysondeb ymagwedd. Eto mae eraill yn dadlau bod partneriaeth ganolog-leol effeithiol a chytundebau ar y cyd ar flaenoriaethau yn ddull grymus o gyflawni gwelliannau ar gyfer cymunedau lleol. Dylai hynny gynnwys y ddau barti gan wneud cyfraniad priodol i, a derbyn budd o'r bartneriaeth. Fodd bynnag, ceir sawl barn am y sut y gallai ac y dylai partneriaeth ddatblygu.

Gallai partneriaeth fwy effeithiol gynorthwyo HSE a'r awdurdodau lleol i gwrdd â'u targedau. Mae gan gynghorau yng Nghymru a Lloegr rôl glir wrth arwain eu cymunedau ac ymuno ag eraill er mwyn hybu lles. Yn yr Alban, drwy ddeddfwriaeth newydd mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd o ran cynllunio cymunedol a chyfranogiad cymunedol hybu lles. Yn yr amgylchedd cyfredol nid oes gan HSE na'r awdurdodau lleol mo'r gallu i ymdrin â iechyd a diogelwch ar eu pen eu hunain, ond drwy weithio i gyfuno adnoddau, amser a phrofiad yn gynhyrchiol, gallwn gyflawni pethau gwell.

Sail y bartneriaeth yn hanesyddol yw rhannu cyfrifoldebau gorfodi. Mae'r trefniant hwn wedi ei seilio'n drwm ar reoleiddiad, a noda'r modd y rhennir y

cyfrifoldebau hynny yn fras yn ôl gweithgaredd. Gellid dadlau y dylai hwn ddod yn berthynas fwy pragmataidd lle y byddai'r dosbarthiad wedi'i seilio'n rhannol ar gryfderau a gwendidau y ddau gorff gorfodi ac yn rhannol ar ofynion y busnesau ac anghenion y cyflogeion.

A ddylid cael partneriaeth yn y maes hwn?
A fyddai'n well cael un corff gorfodi iechyd a diogelwch?
Os oes partneriaeth i fod beth ddylai natur y bartneriaeth fod?

Mesur ac Atebolrwydd

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu amryfal bwysau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac eto mae lefelau eu perfformiad ar iechyd a diogelwch yn amrywio'n fawr. Bydd rhai awdurdodau yn cynnal rhaglenni ardderchog o ymyriadau iechyd a diogelwch, yn aml yn ymgorffori'r gwaith hwn o fewn rhaglenni eraill. Mae eraill fodd bynnag wedi bod yn llawer llai effeithiol. Mae angen i ni gydweithio i sicrhau'r gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Os mai HSE a'r awdurdodau lleol ddylai orfodi iechyd a diogelwch, sut dylai eu perfformiad mewn cymunedau gael ei fesur? Ceir nifer o fesurau y gellir mesur perfformiad awdurdodau lleol yn eu herbyn ond nid yw gorfodi iechyd a diogelwch yn amlwg yn eu plith. A ddylai perfformiad iechyd a diogelwch gael ei fesur yn fwy clir ymhlith rhaglenni sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fel rhan o'r asesiad ar gyfer yr asesiad perfformiad cynhwysfawr, Gwerth Gorau yn yr Alban, a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella? A ddylai gael ei gydnabod yn fwy clir fel ffactor sy'n cyfrannu at wella hyfywedd economaidd ac iechyd mewn cymunedau? A ddylai fod targedau gwirfoddol cytûn wedi'u rhannu rhwng HSC a'r awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr?

Os ydym i fesur perfformiad gorfodi iechyd a diogelwch yn y gymuned, bydd yn codi cwestiynau am y rhai hynny y tybir nad yw eu perfformiad yn ddigon da. Pa help y gellir ei roi i'r rhai hynny sy'n tanberfformio a pha fecanweithiau y gellir eu sefydlu i atal hyn rhag digwydd?

Sut ddylai perfformiad yr awdurdodau lleol ar orfodi iechyd a diogelwch gael ei fesur?
Beth ddylai'r canlyniadau fod i awdurdodau sy'n perfformio'n wael?
Pa rôl ddylai fod gan HSE o ran adeiladu capasiti?

Synergeddau

Ceir llawer o fentrau llywodraeth leol cyfredol. Yng Nghymru a'r Alban cafwyd datganoli. Ceir hefyd gryn bwysau o gyfeiriad y Llywodraeth ganolog yn Lloegr tuag at sefydlu cynulladau rhanbarthol, a rhanbartholiaeth yn gyffredinol – yn wir cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog bapur gwyn ar hyn "Your Region, Your Choice: Revitalising the English Regions".

A fyddai'n well ymdrin ag iechyd a diogelwch ar lefel partneriaeth ranbarthol lle byddai HSE ac awdurdodau lleol unigol yn dod at ei gilydd i drafod

materion sy'n bwysig i'r ardal honno. A ddylid cytuno ar gynlluniau rhanbarthol a blaenoriaethau ac a ddylai adnoddau gael eu rhannu ar sail ranbarthol?

Mae cynnig cryf o du'r awdurdodau lleol am fwy o ganolbwyntio ar gyflenwi lleol - er enghraifft, drwy strategaethau cymunedol. Ai dyma'r lefel orau i ganolbwyntio rhyngweithio rhwng HSE ac awdurdodau lleol arni?

Gall awdurdodau lleol hefyd elwa yn uniongyrchol o lwyddiant busnes cynyddol. Mae'r Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad ar gynllun ar hyn o bryd, sef y Cymhellion Twf Busnes, lle gallai awdurdodau lleol yn Lloegr ennill hyd at £1 Biliwn dros 3 blynedd am hybu busnesau.

Awgrymodd rhai y gallai perfformiad iechyd a diogelwch gwell hefyd helpu adfywiad economaidd ardaloedd. Pe bai ymyriadau wedi'u teilwra i anghenion busnesau, er enghraifft, arweiniad i ddechrau busnes a hyfforddiant asesu risgiau a fyddai busnes yn fwy tebygol o lwyddo?

Sut gall iechyd a diogelwch gael ei integreiddio'n well i flaenoriaethau awdurdodau lleol?

Blaenoriaethau

Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl, ni allwn ganiatáu i'n hadnoddau gael eu gwasgaru yn rhy denau. Mae adnoddau a bennwyd i orfodi iechyd a diogelwch o dan bwysau mawr. Cydnabyddir bod angen i ni wneud llawer mwy i flaenoriaethu ein hymyriadau ac i'w targedu er mwyn cael yr effaith orau posibl. I gyflawni hyn efallai y bydd yn golygu rhoi'r gorau i wneud rhai pethau yn llwyr. A yw nawr yn adeg briodol i edrych ar, ac adolygu, y meysydd yr ydym yn eu gorfodi ar hyn o bryd? A oes rhai meysydd sydd wedi datblygu systemau iechyd a diogelwch digonol, neu lle mae risgiau yn isel iawn, y dylem eu gadael i 'hunan-reoleiddiad' a chanolbwyntio adnoddau prin mewn mannau eraill?

Os ydym yn awr yn edrych ar yr heriau "mwy newydd" i iechyd a diogelwch, yna a yw'n iawn cwtogi ar rai meysydd o ran archwilio a chymryd camau ymyrryd amgen pe byddai angen e.e. addysg ac arweiniad drwy gyfrifau

Sut ddylai awdurdodau lleol a HSE sicrhau bod y broses blaenoriaethu yn effeithiol ac wedi'i chydlynu?

Cysylltiadau

Er mwyn sicrhau'r berthynas fwyaf effeithiol rhwng awdurdodau lleol a HSE yna bydd cysylltiadau yn ganolog i'r holl beth. Rhaid i gysylltiadau ddod yn fwy o broses ddwyffordd – gyda'r awdurdodau lleol a HSE yn cydnabod y gallant ddysgu oddi wrth ei gilydd ac elwa o'i profiad gwahanol, ac arfer da.

Pa gyfleoedd sydd ar gyfer gwell cynllunio ar y cyd a rhannu ymchwil a gwybodaeth? A ddylid cael systemau ar y cyd fel bod awdurdodau lleol a HSE

yn gallu gweithio'n agosach a rhannu gwybodaeth yn haws? A ddylid neilltuo adnoddau ar gyfer datblygu cronfeydd data a rennir?

<p>Sut y gall cysylltiadau gael eu gwella? Sut gall awdurdodau lleol gael mwy o ran yng nghyfnodau cynnar creu polisi sy'n effeithio arnynt?</p>
--

Mae HSC yn datblygu strategaeth ar gyfer gwelliannau pellach mewn iechyd a diogelwch. Noda sut mae iechyd a diogelwch galwedigaethol yn wynebu heriau mawr pellach. Mae'n edrych ar ba fesurau newydd a dyfeisgar y gellir eu mabwysiadu i geisio cwrdd â'r rhain. Bydd awdurdodau lleol hefyd yn wynebu heriau newydd, yn wir mae rhai awdurdodau lleol yn cynnal gwaith llwyddiannus iawn ac arloesol ar y rhain. Mae angen i ni ddarganfod ffyrdd dyfeisgar o weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau ein bod wedi'n harfogi ar gyfer yr heriau newydd hyn.

Rydym wedi gweithio gyda chynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol i gynhyrchu rhai ymagweddau posibl ar gyfer eu trafod a allai gynnig ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r pynciau y cyfeiriwyd atynt uchod. **Er y byddem yn hoffi i chi ystyried y rhain, cydnabyddwn y gall fod ymagweddau eraill nad ydym wedi'u rhestru yn y fan hon, neu ddewisiadau sy'n cyfuno nodweddion y rhai a restrwyd gennym.** Hoffem i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â'r modd y dylai'r berthynas rhwng HSE a'r awdurdodau lleol yn y dyfodol gael eu llunio er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau posibl i iechyd a diogelwch ym Mhrydain.

Ymagweddau

Ymagwedd Un

Yr ethos sylfaenol yw dileu'r ymagwedd orfodi ddeuol. Mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â chymaint o gyfrifoldeb â phosibl, a hwy yw'r unig awdurdod mewn sawl maes. Dylai iechyd a diogelwch gael ei integreiddio i strategaethau cymunedol/cynllunio cymunedol, a dylid ymdrin â phroblemau lleol ar y lefel leol. Byddai adnoddau yn cael eu trosglwyddo i awdurdodau lleol.

Ymagwedd dau

Byddai HSE yn ymgymryd â'r holl gyfrifoldeb am bolisi a gorfodi, ac ni fydd gan yr awdurdodau lleol unrhyw rôl arolygol mwyach. Trosglwyddir rhai adnoddau o awdurdodau lleol i HSE. Gall y dewis hwn gael ei addasu fel bod awdurdodau lleol yn gallu cyfrannu at yr agenda iechyd a diogelwch drwy roi cyngor ac arweiniad mewn rhyw ffordd.

Mae'r ymagweddau canlynol oll yn amrywiadau ar y system gyfredol sydd ar waith. Caent eu seilio ar y newidiadau a nodir isod, ond hefyd byddent yn cynnwys arferion megis rhannu arfer da, gwybodaeth a rhannu cyngor a chysylltiadau gwell.

Ymagwedd tri

Byddai gorfodi deul yn parhau ond bod y systemau cyfredol yn cael eu gwella a'u mireinio. Enghraifft o hyn fyddai symud i ymagwedd yn seiliedig ar raglen a phrosiect gyda chanlyniadau a ddatblygir ar y cyd. Mae amrywiol strwythurau yn bosibl er enghraifft, strwythur rhanbarthol neu leol. Byddai'r pwyslais ar y cyfrifoldeb a fyddai ar HSE a'r awdurdodau lleol i gyflwyno canlyniadau penodol ond gydag ystwythder yn ddiweddarach yn y broses o ran y modd o gyflawni hyn. Byddai'r system hon yn caniatáu i gymunedau lleol gymryd rhan fel rhanddeiliaid o fewn byrddau prosiectau a phrosiectau a byddai, gobeithio, yn hwyluso gweithio cydgysylltiedig ar y lefel leol.

Ymagwedd Pedwar

Byddai gorfodi deul a'r rhaniad presennol o gyfrifoldebau yn parhau (yn amodol ar addasiad bach) ond bod ymagwedd yn cael ei harfer tuag at rannu cyfrifoldeb, er enghraifft, bod awdurdodau lleol yn dod yn gyfrifol am yr holl fusnesau bach a chanolig (50 o weithwyr a llai) a bod HSE yn dod yn gyfrifol am yr holl fusnesau mawr (250 o weithwyr a mwy) beth bynnag fo natur eu busnes. Rhennir y busnesau sydd yn weddill ar sail gweithgaredd. Posiblwydd arall gyda'r ymagwedd hon yw bod y rhaniad wedi'i seilio ar y math o anaf/damwain (e.e. awdurdodau lleol yn gyfrifol am faterion iechyd).

Ymagwedd Pump

Lle y bo'n bosibl, mae polisi iechyd a diogelwch, gorfodi a mesur yn cael eu cydgysylltu ag ymagweddau adrannau llywodraeth eraill. Un enghraifft fyddai archwiliadau iechyd a diogelwch/ cyngor yn cael ei roi gan Arolygydd Llywodraeth Leol pan fyddant yn ymdrin ag archwiliadau arferol eraill, megis diogelwch bwyd.

Ymagwedd Chwech

Gradd o hunan-reoli i sefydliadau mwy eu maint a all ddangos perfformiad, gellid cyfuno hyn â math o ymagwedd partneriaeth 'gorfodi' arweiniol. Byddai archwilio ar sail eithrio yn unig h.y. archwiliad neu bynciau lleol. Gellid cyfuno'r ymagwedd hon gyda'r ymagweddau uchod eraill.

Cwestiynau:

Atodiad 2

A ddylai fod partneriaeth yn y maes hwn?
A fyddai'n well cael un corff gorfodi iechyd a diogelwch?
Beth ddylai natur y bartneriaeth fod?

Sut dylai perfformiad awdurdodau lleol ar orfodi iechyd a diogelwch gael ei fesur? Beth ddylai'r canlyniadau fod i awdurdodau sy'n perfformio'n wael?
Beth ddylai rôl HSE fod o ran adeiladu capasiti?
A wneir digon i integreiddio iechyd a diogelwch i flaenoriaethau awdurdodau lleol?
Sut gall iechyd a diogelwch gael ei integreiddio'n fwy effeithiol i flaenoriaethau awdurdodau lleol?
Sut y gellir gwella cysylltiad?
Sut gall awdurdodau lleol gyfranogi mwy yng nghymau cynnar creu polisïau sy'n effeithio arnynt, gan gydnabod anawsterau amlwg y nifer o awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig?

Manylion ar gyfer ateb a chyswllt

Byddem yn ddiolchgar petaech yn anfon eich ymatebion erbyn **19 Medi** fan bellaf i'r cyfeiriadau canlynol

Local Authority Consultation Response
Strategy and Intelligence Division
Health and Safety Executive
8NW Rose Court
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS

Neu gadewch **neges ffôn**, gyda'ch ymateb ar: 020 7717 6952
Neu **e-bost**: sid.consult@hse.gsi.gov.uk

Gorfodir deddfwriaeth lechyd a Diogelwch fel y'i pennir yn Neddf Lechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb. 1974 a darpariaethau statudol perthnasol, gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch a'r awdurdodau lleol.

Caniatâ Adran 18 y Ddeddf i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoleiddiad, ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol orfodi rhannau o'r Ddeddf. Mae rhwymedigaeth gan yr awdurdodau lleol i 'wneud trefniadau addas' o fewn eu hardaloedd ar gyfer gorfodi'r rhain.

Sector yr Awdurdodau Lleol

Dynodir yr eiddo y mae gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldebau gorfodi drostynt yn y Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998. Dyma hwy'n fras:

- Siopau manwerthu
- Siopau Cyfanwerthu a warysau;
- Swyddfeydd;
- Gwasanaethau arlwyo;
- Darparu llety preswyl;
- Gwasanaethau defnyddwyr a hamdden ac eiddo eraill.

Yn 2000/01 roedd 1.2 miliwn o eiddo wedi'u cynnwys yn sector gorfodi'r awdurdodau lleol.

Yr achosion mwyaf cyffredin o anafiadau yn sector gorfodi yr awdurdodau lleol o hyd yw llithro a baglu, syrthio o uchder a chludiant yn y gweithle.